

CERDDORIAETH.

SWN FFREUTUR YSGOL AMSER CINIO.

MAE RHYS YN YFED O'R CAN SYDD YN EI LAW.

RHYS: Na! *Oh my God!*

ELS: Dwi'n *shattered!*

RHYS: Ti'm yn gall!

ELS: Ti yw'r unig un sy'n gwybod, felly paid dweud OK?

RHYS: OK.

ELS: Bydde Mam a Dad yn mynd yn *ballistic!*

RHYS: Dy'n nhw'm yn sylwi bo chdi ddim yna?

ELS: *Yeah* weithie! Ma'n nhw'n meddwl bo fi mas 'da ffrindie.

RHYS: Sara?

ELS: *Yeah*. A ti!

RHYS: Fi? O *cheers!* (CURIAD) Ti *offdy* ben.

ELS: Ma' fe'n *buzz* Rhys!

RHYS: Gwell na snogio fi yn Blwyddyn Chwech?

ELS: Bet o'dd 'na! 'Snog-a-Gog'!

RHYS: Be? *Serious?*

ELS: Nage! *Stupid!*

RHYS: Elin!

ELS: Ni 'di gwneud e *loads* o weithie. Ma' canol dre' fel *race-track* weithie yn orie mân y bore. - "*joyride*"

RHYS: (MEWN SYNDOD) Canol dre'?

ELS: *Yep.*

RHYS: *No way!* (CURIAD) Ma' Dad am fynd â fi i'r traeth pan dwi'n dechra dysgu dreifio.

ELS: *sarcastig* (YN NAWDDOGLYD) *Yeah?* Grêt! (CURIAD) O's arian 'da ti?

RHYS: Na.

ELS: Wedi colli fy mag i rywle.

RHYS: *Yeah.*

ELS: Be?

RHYS: Sgen ti byth ddim pres ddim mwy.

ELS: Nid arna i ma'r bai fod Mam a Dad yn anghofio rhoi arian i fi!

RHYS: O'n i'n meddwl mai 'di colli dy fag oedd det ti!

ELS: O *whatever!*

SAIB. MAE RHYS YN CYNNIG Y COKE I ELIN.

RHYS: Ti isio?

ELS: Siŵr?!

RHYS: *Yeah.*

sygh
MAE ELIN YN YFED YN DDWFN O'R COKE.

Hoi! *Diet Coke* fi 'di hwnna! (CURIAD) Plîs paid â gwneud hynna eto.

ELS: Beth? Rhoi lipstick ar dy gan *Coke* di?

RHYS: Naci!

ELS: (AM Y GYRRU) Dwi'n hoffi fe Rhys. Ma' fe'n gwagio dy ben di.

RHYS: Plîs paid Els.

ELS: Pam? Ma' dy dad di'n gyrru'n gyflym! Pam 'i bod hi'n iawn iddo fe ond ddim i fi?

RHYS: Ma' gynno fo leisans!

ELS: Dim Mam, dim Dad, dim arholiadau. Pen hollol wag. Bob dim yn *blur*. Pethau'n gwibio heibio.

RHYS: Dwi'n methu disgwyl tan bo fi'n ca'l leisans.

ELS: Cyflym. Rili cyflym Rhys! Ti'n teimlo'n rhydd. Ti'n teimlo'n fyw!

RHYS: Ia, ond mae o'n beryg dydi?

ELS: *Yeah?*

RHYS: 'Sa chdi 'di gallu marw!

ELS: *So?*

RHYS: Idiot!

ELS: Be? (CURIAD. WEDI GWYLLTIO) O, fi'n gwybod nawr pam mae dy dad di'n gyrru mor gyflym! Falle fod e'n gobeithio y bydd e'n mynd syth mewn i'r tractor 'na lawr hewl chi rhyw ddydd. Ar sbîd! Fel bod e byth yn gorfod gwrando ar dy lais *stupid* di byth eto!

RHYS: (WEDI'I FRIFO) *Get lost* Elin. (CURIAD) Els wyt ti'n OK?

Sarcastic

ELS: Dwi'n ffantastig! (CURIAD) A'th Wes â fi nôl, reit lan at y gât ffrynt neithiwr. Saith deg dros y *speed bumps*!

RHYS: *No way!* (CURIAD) Wna'th dy ben di hitio to y car? 'Chos 'sa hynny'n esbonio lot! *Sarcastic*

ELS: O ha ha Rhys!

SAIB.

RHYS: Pa fath o gar oedd o?

ELS: Neithiwr? Coch!

RHYS: Car pwy ta?

ELS: Shwt dwi fod i wybod?

RHYS: Be? (CURIAD) Dydi o ddim hyd yn oed yn ddigon hen i yrru.

ELS: Ma fe'n gallu, *so* ma fe yn!

RHYS: Ia! Ond dydi o ddim i fod i yrru, nac'di!

ELS: (YN DYNWARED) 'Ddim i fod i yrru, nac'di'. *Get a life.*

RHYS: *Got a life!*

ELS: *Yeah?* Sdim gyts o gwbl 'da ti. Fyddet ti byth yn gwneud be ma' fi a Wes yn ei wneud fyddet ti?

RHYS: *So?*

ELS: Whare *computer* yn dy stafell wely! *Dead cwl*, Rhys!

RHYS: Mwy cwl na dwyn ceir dydi?

ELS: Benthycu nage dwyn! Ti mor boring Rhys.

RHYS: Dwi ddim!

- ELS: Mami a Dadi sy'n penderfynu popeth i ti.
- RHYS: Naci, wel, OK, ia, ond ... *So what?* Cwpl o flynyddoedd eto, a bydda i ar *gap year*!
- ELS: *Gap year?* Prat! 'Na pam bo fi 'da Wes a ddim 'da ti!
- RHYS: Be? (CURIAD) 'Sa ti efo fi 'sa ti ddim efo fo?
- ELS: *Yeah right!* Dwi ddim yn gwybod os dwi'n dy hoffi di rhagor hyd yn oed.
- MAE RHYS WEDI'I FRIFO. CURIAD.
- Ni 'di ca'l digon, Wes a fi. Dy'n ni ddim yn becsu dam am rieni.
- RHYS: Ond dydi o ddim yn byw efo'i rieni nac'di?
- ELS: Dyw e ddim isie.
- RHYS: Na?
- ELS: Na. Ro'n nhw'n gas 'da fe, a dwi'n gwybod shwt ma fe'n teimlo.
- RHYS: Na dwyt ti ddim! Ma' ots gan dy rieni di amdanat ti.
- ELS: *Oh yeah!* Ots bo fi ddim yn camfihafio. Ots bo fi ddim yn rhoi lle i bobl siarad.
- RHYS: Naci.
- ELS: Ots bo fi'n pasio cymaint o arholiade â phlant eu ffrindie nhw.
- RHYS: *Yeah well!* Wnei di ddim rŵan, wnei di?
- ELS: Be? (CURIAD) *Get lost* Rhys. Ti'm yn gwybod dim byd OK? Ma' Mam a Dad yn ... boen.
- RHYS: Bywyd bob dydd ddim yn ddigon cŵl i ti?

ELS: Cau dy geg!

RHYS: Fyddi di a Wes ddim yn para.

ELS: Na?

RHYS: *No way!*

ELS: Dwi'n ffitio mewn 'da Wes a'i ffrindie.

RHYS: *Yeah right!* Ti jyst yn smalio.

ELS: Smalio?

RHYS: Esgus.

ELS: Nagw! (CURIAD) Dwi ddim yn ffitio i mewn gatre.

RHYS: Does 'na neb yr un oed â ni yn 'ffitio i mewn gatre' Elin.

ELS: *Get lost* OK? *Loser.*

RHYS: Fi?

ELS: *Yeah!*

RHYS: Fi?

ELS: *Yeah!*

RHYS: *Right back at yah!*

ELS: Cer i grafu wnei di.

RHYS: OK iawn!

ELS: Cer i grafu!

RHYS: (CURIAD) Be, rŵan?

ELS: *Yeah!*

RHYS: OK! (WRTH FYND) Dwi'n mynd.

ELIN: Dwi ddim isie dy weld ti 'to. Dwi ddim hyd yn oed yn gwybod pam dwi'n boddan siarad 'da ti! Ti'n genfigennus ohona i a Wes achos fydde neb byth yn dy ffansio di! *Geek!*

MAE RHYS YN GADAEL.

(YN DIFARU) O na!

CERDDORIAETH.

MAE WES AC ELIN MEWN CAFFI. MAE ELIN YN TEIMLO'N
DDIFLAS. MAE WES YN DISGWYL AM RYWUN.

WES: Ble ma' nhw?

ELS: Shwt ydw i fod i wybod?

WES: Ni fod i gyfarfod 'ma.

ELS: O's rhaid i ti 'u gweld nhw heddi 'to?

WES: *Yep.*

ELS: Pam?

WES: Teulu.

ELS: Teulu?

WES: *Yeah.* Ry'n ni fel teulu nag 'yn ni? Y bois a fi.

ELS: Ma' 'da ti deulu.

WES: Pwy? Mam a Dad?

ELS: Nage Wes! Fi!

WES: O! *Yeah.* Sori! (CURIAD) Dwi'n llwgu. O's arian 'da ti?

ELS: Defnyddia dy arian dy hunan.

SAIB.

WES: Els! Beth sy'n bod?

MAE ELS YN CODI EI HYSGWYDDAU.

Dwed.

ELS: Sori. Dim byd.

WES: Ma' rhywbeth yn bod.

ELS: OK. Popeth, OK?

WES: Fi?

ELS: Na. Popeth ond ti.

SAIB. MAE ELIN YN DANGOS PIN ANGEL I WES.

Fi 'di prynu hwn.

WES: (YN HANNER GWRANDO) Cwl.

ELS: Angel bach. Punt.

WES: Punt!

ELS: Yeah. Ti mo'yn un?

WES: Na.

ELS: Af i i nôl un i ti.

WES: *Chick-thing* dwi'n credu Els.

ELS: Os wyt ti'n 'i wisgo fe, mae fe'n dy warchod di.

WES: Fel *bodyguard*?

ELS: Sort of.

WES: Ti ddim angen *bodyguard* wyt ti? Fi 'ma i sorto pethe ma's i ti.

SAIB.

Oes diafol i'w ga'l? 'Da chynffon a chyrn?

ELS: Na! Fydde diafol ddim yn dy warchod di fyddde fe?

WES: Dwi ddim isie neb i 'ngwarchod i. Dwi'n gallu gofalu amdana i fy hun. - *annibynol*

ELS: Dwi'n gwybod.

WES: Gorfod.

SAIB.

Becso am arholiadau?

ELS: Na! (CURIAD) Rhy hwyr nawr beth bynnag.

WES: *Yeah?*

ELS: *Yeah.* O dwi ddim yn gwybod reit? Falle. *Don't care.*

SAIB.

Weithiau fi'n gwneud fy ngore i weld angel.

WES: *No way!*

ELS: Wnest ti hynny? Yn y gwely? 'Plîs, plîs, plîs, os chi'n bod, dangoswch eich hun i fi. Nawr! *Come on! Plîs?*' Ond wedyn dwi'n dychryn, 'Na, sori angylion, do'n i ddim o ddifri! Peidiwch â dod 'ma! Plîs. Dwi ddim isie'ch gweld chi'.

WES: *Yeah*, wel paid â galw un i lawr pan dwi 'da ti!

ELS: Pam? Fydde ofn arnat ti?

WES: Na! (YN PRYFOCIO) Gwely bach Ben yn eitha' *crowded* 'da dim ond ni'n dau nag yw e?

ELS: Ca' dy ben Wes! Ai dyna'r cwbl ti'n meddwl amdano fe?

WES: Na! (CURIAD) Dwi'n meddwl am bêl-droed 'fyd weithie!

SAIB.

ELS: Wyt ti'n meddwl bod angylion yn bod?

WES: Na.

ELS: Mor sicr â hynny?

WES: Yeah.

ELS: Tawel ma'n siŵr. Dwyt ti'm yn meddwl? Lan 'na?

WES: Lan ble?

ELS: Hardd. Pluog. Meddal. *breuddwydiol*

WES: *Earth calling* Elin!

ELS: Neb yn haslo.

WES: Ti'n siarad *complete crap* weithie!

ELS: Na dwi ddim!

WES: Beth sy'n bod?

ELS: Bob dim. Wedes i!

WES: Beth?

ELS: Teimlad gwag.

WES: Ddim wedi bwyta ers dyddie wyt ti? *Speed* sy'n gwneud 'na i ti. Ma'r diwrnod wedyn yn crap.

ELS: Dwi'n siomi pawb.

WES: Paranoia. *Speed.*

ELS: Pawb yn fy nghasáu i. *Heimlo'n isel*

WES: Ti'n gweld!

SAIB.

O's rhywbeth wedi digwydd? Gatre?

ELS: Na. (CURIAD) Wel, dim byd gwaeth na'r arfer.

WES: (YN FYGYTHIOL) Sortia i fe ma's i ti. Dy dad.

ELS: *Yeah. Yeah* fi'n gwybod. Wes ... (CURIAD)

MAE ELS AR FIN CYFADDEF EI BOD WEDI DWEUD
CELWYDD YNGLŶN Â'I THAD YN EI CHURO. HI, OND
MAE'N AILFEDDWL AR Y FOMENT OLAF.

... 'sdim rhaid i ti aros 'ma os bydde'n well 'da ti fod 'da dy ffrindie.

WES: (DDIM YN DEALL) Beth? (CURIAD. MAE WES YN MEDDWL
BOD ELS YN FEICHIOG.)

Els! Sdim byd 'da ti i ddweud wrtha i oes 'na?

ELS: Beth? (YN DEALL) *No way!*

WES: Bydde fe'n OK! Fyddwn i ddim yn becco. Fi isie lot o blant.

ELS: (WEDI'I SYNNU) Beth?

WES: A byddan nhw'n cael popeth.

ELS: *Yeah?* Nawr pwy sy'n siarad crap?

WES: Beth?

ELS: Shwt ma'n nhw'n mynd i ga'l popeth Wes?

WES: Bydda i'n sorto fe.

ELS: O! Fyddi di?

WES: Yeah! Tŷ mawr fel eich tŷ chi. *A loads o sylw* Bydda i'n caru 'mhlant i, a byddan nhw'n fy ngharu i. Dwi'n mynd i weithio'n galed. *Serious.*

ELS: Yeah? Dechre pryd? (CURIAD) Fydd *benefits* ddim yn prynu lot fyddan nhw?

WES: Bydd busnes fy hunan 'da fi.

ELS: Be! Yn gwerthu cyffurie?

WES: Hisht! Nage! (CURIAD) *No way!* Dwi ddim yn gwybod beth 'to ydw i.

ELS: Mae dy ben di yn y cymyle.

WES: Wel ti wedodd bydde hi'n neis lan 'na!

SAIB.

So ti ddim mo'yn bod yn fam i sbrogs fi?

ELS: Dwi'm yn gwybod.

WES: Byddet ti'n grêt fel mam.

ELS: Fyddwn i ddim. Dwi'n gwneud llanast o bopeth yn barod.
(CURIAD) Dwi hyd yn oed wedi cwmpo ma's 'da Rhys.

WES: So?

ELS: Ni'n ffrindie.

WES: Yeah?

ELS: Ers blynydde.

WES: (CURIAD) Ti'n 'i ffansio fe.

ELS: Nagw!

WES: Wyt, rwyd ti.

ELS: Dwi ddim, reit?

WES: (YN SÔN AM RHYS) *Posh git.*

ELS: Rhys?

WES: Rwyd ti a fe'n debyg nag y'ch chi?

ELS: *Get lost!* Dwi ddim yn debyg iddo fe. A dwi ddim yn 'i ffansio fe! Dwi 'di cwmpo ma's 'da fe, a dwi'n becsso.

WES: (YN DDIRMYGUS) Becso? Wwww!

ELS: Becso cymaint ma' fe'n gwneud dolur. Poen meddwl, OK? Ond does dim disgwyl i ti ddeall y math 'na o boen o's e?

WES: Beth?

ELS: Does dim syniad 'da ti. A 'na fe.

Rhys bach yn
"intimidated" gan

CERDDORIAETH.

SŴN IARD YR YSGOL. MAE WES WEDI GWYLLTIO, ^{Wes.}
AC YN YMOSOD AR RHYS. MAE RHYS YN CEISIO'I
AMDDIFFYN EI HUN.

RHYS: Alla i ddim helpu 'i bod hi *all over* fi, Wes.

WES: *You what?*

RHYS: Dwi'n *irresistible* dydw?

WES: *All over* ti? *All over* ...

RHYS: Jôc, mêt! *Joke!* 'Dan ni'n ffrindia! Dyna'r cwbl. Jôc!

WES: Dwi ddim yn dy gredu di.

RHYS: Na?

WES: Na.

RHYS: Crap! (CURIAD) OK, OK! Dwi yn 'i ffansio hi.

WES: *You what?*

RHYS: Ia, ia, ond dydi hi ddim yn fy ffansio i nac'di? OK? *I mean look at me!*
Fasat ti'n fy ffansio i?

WES: (YN FFIEIDDIO) ^{"disgusted"} *You what?*

RHYS: Sori. Sori! Dwi'n gwbod fasat ti ddim. Jyst trio, wyddost ti ...

WES: Jyst gad hi fod. OK *fatso?*

RHYS: Dwi 'di colli tri phwys y mis yma!

SAIB. DYDY WES DDIM YN GWYBOD BETH I'W DDWEUD.

WES: Ydy hi'n mynd i basio'i harholiadau?

RHYS: (WEDI SYNNU) Be?

WES: Glywaist ti fi!

RHYS: Dim cymaint ag y dylai hi ella.

WES: A fy mai i yw hynny, ie?

RHYS: Wnes i'm deud dim byd! Dim o 'musnes i.

WES: Bai ei theulu hi yw e.

RHYS: Be?

WES: Ma' hi'n ca'l amser caled. Gyda'i rhieni.

RHYS: Nac ydi!

WES: Ydi.

RHYS: Dydi hi ddim! Ddim go iawn!

WES: So ydy dy rieni di'n dy haslo di 24/7?

RHYS: ^{onest / u sincere} Absolutely! (YN DAER) Ma' nhw.

WES: Wel, (YN OEDI AM FOMENT) ydy dy dad yn dy fwrw di *then*?

RHYS: Be?

WES: Ti ddim yn gwybod dim byd felly wyt ti? So ca' dy ben! Fi'n mynd i sorto'i thad hi ma's os yw e'n cyffwrdd Elin 'to.

RHYS: Sortio Mr Jones? Na! Paid. *No way!* Fasa fo byth yn hitio Elin. Dwi'n 'i nabod o.

WES: *Yeah?* (CURIAD. YN ANSICR) Ti wedi bod yn 'i thŷ hi wyt ti?

RHYS: *Yeah. Loads* o weithia. (CURIAD. MAE WES WEDI'I SYNNU AC WEDI'I FRIFO) Wyt ti?

WES: *Get lost, right?*

RHYS: *Right. Sori!* (CURIAD) Ma' Mr a Mrs Jones yn *vegetarians!* Fasan nhw byth yn brifo Elin! *No way!*

WES: Pam bydde Elin yn dweud celwydd? Ma hi'n ca'l amser caled, dwi'n deud 'thot ti!

RHYS: *Yeah* ond ma' rhieni pawb yn *obsessed* efo arholiada, dydyn?

WES: Dwi ddim yn gwybod, ydw i?

RHYS: Sori.

WES: *Get lost.*

RHYS: Diolch.

MAE RHYS YN CYMRYD EI GYFLE I DDIANC.

WES: Hoi! Ble ti'n mynd?

RHYS: Sori! O'n i'n meddwl bo chdi 'di deud *get lost!*

WES: Prat! (CURIAD) Fydde Elin ddim yn dweud celwydd wrtho i.

RHYS: Bydda. I ffitio i mewn ella.

WES: Gyda pwy?

RHYS: Efo chdi!

WES: Be?

RHYS: Dwi'n gwybod! *Strange but true!*

*mynd yn
defensiue*

threatening

WES: (YN FYGYTHIOL) Ti'n gwybod popeth am bopeth nag wyt ti?

RHYS: Na'dw! Ond o'dd Elin yn iawn cyn dy gyfarfod di!

WES: *You what?*

RHYS: *Crap! I can't believe I said that!* - *o'n o beth * bydd yn ateb Wles*

WES: Beth wedest ti?

RHYS: ** Sori! Sori right, ond ma' Elin 'di newid! Yn ddiweddar.*

WES: *So?*

RHYS: Dwi'n poeni amdani.

WES: *Get a life!*

RHYS: Bydd gen i fwy o fywyd na chdi pal, unwaith y bydda i'n gadael cartra.

WES: Wel dwi ar y blaen i ti fan 'na, *gay-boy!*

RHYS: (WEDI'I SARHAU) *Excuse me?*

WES: Dwi wedi gadael cartre'n barod nagw i?

RHYS: *Yeah*, ond doedd gen ti'm dewis nag oedd?

WES: *So?*

RHYS: Wel ma' gan rai ohonon ni ddewis.

WES: *sarcastic* Wel *lucky you!* (CURIAD) Ma' 'da fi'r math o rieni fyddet ti ddim hyd yn oed yn gallu 'u dychmygu!

RHYS: Sori! Ond os dwi'm yn gallu'u dychmygu nhw, 'di Elin ddim chwaith. Ma' rhieni Elin yn ei charu hi.

WES: *Yeah, right!*

SAIB.

RHYS: (YN OEDI) Ma' Elin yn *bored*. Ma' hi'n dy ddefnyddio di.

WES: Beth?

RHYS: Ddim yn fwriadol na dim byd ond ...

WES: Ma' hi'n fy ngharu i.

RHYS: Meddwl 'i bod hi.

WES: A dwi'n ei charu hi!

RHYS: (YN SYNNU) *No way!*

WES: Beth?

RHYS: Ti'm yn gwbod be 'di cariad.

WES: Beth?

RHYS: *No offence* de, ond sut allet ti?

WES: Dyw hynna ddim yn wir.

RHYS: Sori ond ...

WES: Dwi'n gwybod beth yw e, reit? A dwi'n gwybod bod pobl eraill yn 'i ga'l e, a dwi ddim. Ond dwi'n 'i ga'l e nawr, a dwi'n 'i hoffi e.

RHYS: Dim ond *sex*.

WES:

Yeah? Ti'n meddwl mai 'na'r cwbl yw e? Jelys wyt ti? (CURIAD) Ma' hi'n fy ngharu i, reit? A dwi'n 'i charu hi. (CURIAD. YN

"Kheal" -

FYGYTHIOL) Ti'n gwybod beth sy'n bod 'da ti? Er dy fod ti'n mynd i'r ysgol bob dydd fel bachgen bach da, does neb 'rio'd wedi dysgu gwers i ti o's e?

RHYS:

Oes mae 'na! Wir (YN EI AMDDIFFYN EI HUN) *Crap!*

MAE WES YN TARO RHYS. - *color*

Awtsh! Awtsh!

CERDDORIAETH DAWEL.

MAE ELIN YN EI HYSTAFELL WELY.

MAE WES YN LLE BEN.

MAE RHYS, WEDI'I ANAFU, YN EI YSTAFELL WELY.

MAE ELIN YN FFONIO WES.

*rolur i
dolangos
yr anafiad*

MAE FFÔN WES YN CANU, OND AR ÔL GWELD MAI ELIN
SY'N GALW, MAE'N ANWYBYDDU'R ALWAD.

ELS: (YN DDIAMYNEDD) Wes!

MAE ELIN YN LLUNIO NEGES DESTUN I WES.

Dau ddiwrnod! Ble wyt ti? Dwi'n *bored*. Isie dy weld di.

MAE'N ANFON Y NEGES DESTUN.

OK.

MAE WES YN DERBYN Y NEGES.

WES: (YN DARLLEN) *Bored? Bitch.*

MAE WES YN TAFLU EI FFÔN. MAE'N CRIO.

ELS: Rhys *then* ...

MAE ELIN YN ANFON NEGES DESTUN AT RHYS.

ELS: Sori am gwympo ma's! Pam ddim yn ysgol? Colli ti *babes*. Disgo nos
Lun? Gwisg ffansi. Xx Els.

MAE'N ANFON Y NEGES DESTUN.

OK.

MAE RHYS YN DERBYN Y NEGES DESTUN. MAE'N ANFON
NEGES DESTUN AT ELIN.

RHYS: Sâl. Nôl dydd Llun. Gwisg ffansi? *Yeah baby!*

MAE ELIN YN DERBYN Y NEGES DESTUN. MAE'N
GWENU.